



**bwrdd gweithredol
gofal lliniarol cymru**
**palliative care cymru
implementation board**



DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Hosbis St Kentigern, Llanelwy

Adolygiad o Ofal Diwedd Oes gan Gymheiriaid

Dyddiad yr Ymweliad: Mawrth 21 2013

Adolygiad o Ofal Diwedd Oes gan Gymheiriaid

Hosbis St Kentigern, Llanelwy, Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol

Dyddiad yr Ymweliad : 21 Mawrth 2013

Tîm Adolygu Gofal Diwedd Oes gan Gymheiriaid

Enw (Llythrennau bras)	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Ian Back	Ymgynghorydd Meddygaeth Liniarol	Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Sophie Thomas	Metron Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	Sefydliad Paul Sartori
Kath Jones	Cyfarwyddwr Gofal	Hosbis Hope House
Mansel Thomas	Adolygwr Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tîm Hwyluso		
Veronica Snow : Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gweithredol Gofal Lliniarol		
Gareth Brydon : Arolygydd Cynorthwyol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru		

Safle a Adolygwyd		
Teitl y Sefydliad	Hosbis St Kentigern, Llanelwy	
Teitl y tîm	Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol Hosbis St Kentigern	
Teitl Dyddiad Adolygu	Dydd Iau 21 Mawrth 2013	
Enw (Argraffwch)	Teitl Swydd	Sefydliad
Ian Bellingham	Prif Weithredwr	Hosbis St Kentigern
Joyce Bellingham	Rheolwr Cyffredinol	Hosbis St Kentigern
Dinah Hickish	Uwch-ymarferydd Nyrsio	Hosbis St Kentigern
Dr Dave Gozzard	Ymddiriedolwr	Hosbis St Kentigern

Alison Jones	Prif Nyrs Ward	Hosbis St Kentigern
Barry Davies	Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd	Hosbis St Kentigern
Lucy Clarke	Therapydd Galwedigaethol Arweiniol – Therapi Dydd	Hosbis St Kentigern
Dr Nicola Wilson	Ymgynghorydd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dr Caroline Osborne	Cyfarwyddwr Clinigol – Gofal Diwedd Oes	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

ADRODDIAD YR ADOLYGWYR

Crynodeb o'r Adolygiad

Mae Hosbis St Kentigern yn uned 8 gwely ar gyfer cleifion mewnol yn ogystal ag yn Wasanaeth Gofal Dydd mewn Hosbis ac mae ganddi strwythur adrodd Llywodraethu Clinigol eglur. Cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir CANISC i gofnodi'r holl wybodaeth. Trafodir yr holl gleifion newydd yng nghyfarfod wythnosol y Tîm Amlddisgyblaethol a chytunir ar gynllun gofal. Adolygir cleifion mewnol yng nghyfarfod wythnosol y Tîm Amlddisgyblaethol a thrafodir cleifion yr hosbis ddydd a chleifion mewnol yn y Tîm Amlddisgyblaethol.

Dywedir bod cyfathrebu gyda darparwyr gwasanaethau gofal lliniarol lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dda. Mae arolygon cleifion yn nodi bod lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymhlith y cleifion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel comisiynwyr, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn dweud y ceir gweithio integredig da gyda hosbis St Kentigern a chyfranogiad yn y grŵp strategol lleol.

Mae meysydd o arfer da y gellid eu rhannu e.e. Ymgymryd â'r Wobr Buddsoddwyr Mewn Pobl ar gyfer y staff a'r defnydd o Wirfoddolwyr. Hefyd, ceir rhaglen anadlol ar gyfer cleifion, sydd â'r bwriad o fodloni angen sydd heb ei fodloni ar gyfer cleifion anadlol nad ydynt yn dioddef o ganser, er mwyn cynorthwyo i leihau derbyniadau aciwt a chynorthwyo cleifion i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Ar ôl dileu swydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn 2010 a cholli (oherwydd adleoli) yn 2012 yr ymgynghorydd arweiniol penodedig o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, collodd St Kentigern ran o'i chefnogaeth feddygol. I ymdrin ag angen, datblygwyd gwasanaeth 'dan Arweiniad Nyrs' sydd ag Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch (a gefnogir gan Uwch-ymarferydd Nyrsio arall) sy'n goruchwyllo'r gwaith o reoli gofal clinigol y cleifion mewnol o ddydd i ddydd. Er bod manteision i'r model hwn, yn enwedig o ran derbyn cleifion y tu allan i oriau arferol, mae'n dibynnu'n helaeth ar yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch i gynnal y gwasanaeth. Hefyd, mae gan yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch swyddogaeth reoli arweiniol. Ceir diffyg gwerthuso ffurfiol (mae'r Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch wedi derbyn gwerthusiad clinigol a rheoli yn 2012/2013) a goruchwyliaeth glinigol i gefnogi'r unigolyn sydd yn y swydd feichus hon. Mae angen diweddarau'r protocolau sydd wedi eu sefydlu i gefnogi swyddogaeth yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch. Trwy ddefnyddio cefnogaeth y Bwrdd Iechyd, bydd Hosbis St Kentigern yn gallu gwella cyfraniad yr Arweinyddiaeth Feddygol Glinigol i'r Hosbis ac adolygu ei strwythur rheoli nyrsio i ddiffinio'r model o arweinyddiaeth nyrsio yn fwy eglur yn yr Hosbis.

Mae gan yr Hosbis arweinyddiaeth weithredol gref a rhaid ei chanmol am ei gallu i oresgyn anawsterau ariannol difrifol gyda chymorth a chefnogaeth y gymuned a

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er bod ymgyrchoedd codi arian diweddar wedi sicrhau dyfodol yr Hosbis, mae'r Ymddiriedolwyr a swyddogion o'r Bwrdd Iechyd yn trafod ei lleoliad.

Adolygiad gan Gymheiriaid 21 Mawrth 2013

Themâu Allweddol

Gan gyfeirio at ganllawiau ar Themâu Allweddol yn y canllawiau tystiolaeth, rhwch sylwadau yn cynnwys manylion cryfderau, meysydd i'w datblygu ac effeithiolrwydd cyffredinol y tîm. Dylid nodi unrhyw feysydd penodol o bryder neu o arfer da hefyd yn yr adrannau canlynol.

Strwythur a swyddogaeth y gwasanaeth

Rhowch sylwadau am arweinyddiaeth, aelodaeth, presenoldeb a threfniadau cyfarfodydd, polisiau gweithredol a llwyth gwaith. Dylai timau roi sylwadau penodol gan ystyried y cwestiynau canlynol:

- *A yw pob aelod craidd allweddol wedi'i sefydlu?*
- *A oes gan bob aelod craidd allweddol gymhwyster priodol mewn Gofal Lliniarol?*
- *A oes Polisi Gweithredol wedi'i sefydlu?*
- *A yw'r Tîm Amlddisgyblaethol yn cwrdd yn wythnosol ac yn cofnodi cyfarfodydd ar CANISC?*
- *A oes protocol cyfathrebu?*
- *Sawl atgyfeiriad/ derbyniad a dderbyniwyd i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol?*

Sefydliad sector gwirfoddol yw Hosbis St Kentigern a oruchwylir gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr. Mae'r Hosbis yn darparu Gofal Lliniarol Arbenigol i Gleifion Mewnol yn ogystal ag Uned Hosbis Ddydd yn ardal Sir Ddinbych, Dwyrain Conwy a Gorllewin Sir y Fflint o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Comisiynir y gwasanaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. (Nid oes cytundeb comisiynu ffurfiol gyda'r Bwrdd Iechyd).

Cyfansoddiad y Tîm

Mae Ymgynghorydd Meddygaeth Lliniarol o'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at waith y tîm clinigol, mewn 2 sesiwn yr wythnos ar hyn o bryd. Disgwylir i hyn gynyddu yn y dyfodol agos. Ceir amser sesiwn gan feddygon teulu lleol, 2 Uwch-ymarferydd Nyrsio (Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch ac Uwch-ymarferydd Iau), 11.34 o Nyrsys Cofrestredig cyfwerth ag amser llawn a 7.2 Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, 1 Gweithiwr Cymdeithasol, 1 Therapydd Galwedigaethol/Arweinydd yr Hosbis Ddydd, Cwnselydd Profedigaeth, Cydgysylltydd Gweithgareddau a chymorth clerigol meddygol. Darperir ffisiotherapi, Therapiau Cyflenwol a chymorth gan Gaplan hefyd. Darperir cymorth fferyllol trwy'r Bwrdd Iechyd. Mae 8 o welyau i gleifion mewnol a 10 o leoedd gofal yn yr Hosbis Ddydd a gynigir ar 4 diwrnod yr wythnos. Mae'r Hosbis yn derbyn cymorth gwych gan dîm o wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r holl weithgareddau a

nodwyd eisoes a Therapiau Dargyfeirio Sylw.

Mae gan y rhan fwyaf o'r staff nyrsio cymwysedig gymwysterau Gofal Lliniarol Lefel Diploma. Mae'r Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch, sef yr arweinydd nyrsio, wedi ei hyfforddi'n dda fel Uwch-ymarferydd Nyrsio, ond nid oes ganddi hyfforddiant lefel ôl-raddedig mewn Gofal Lliniarol.

Ceir polisi Gweithredol eglur a cryno.

Nid oes protocol cyfathrebu wedi ei sefydlu ond mae'r tîm o'r farn eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, (tîm staff bychan o 43). Ceir system gyfathrebu dda a gwneir llawer o ddefnydd o'r hysbysfwrdd, a chynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd.

Mae'r gyfradd defnyddio'r gwelyau wedi gwella ers ailagor, ac mae tua 80% ar hyn o bryd.

Cydgysylltu llwybrau gofal/cleifion

A oes llwybr rheoli clir ar gyfer cleifion sydd angen rheoli symptomau cymhleth? e.e. Cywasgu Llinyn y Cefn Metastatig

Rhowch sylwadau ar gydgysylltu gofal a llwybrau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, Arweiniad clinigol a chyfathrebu

Llwybr Cleifion

Mae gan yr Hosbis bolisi Derbyn a Rhyddhau wedi'i sefydlu. Atgyfeirir y rhan fwyaf o'r cleifion gan y tîm Gofal Lliniarol Arbenigol, ond gellir eu hatgyfeirio o wasanaethau gofal sylfaenol hefyd.

Cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir CANISC i gofnodi'r holl wybodaeth glinigol.

Adolygir y cleifion mewnol yn y cyfarfod amlddisgyblaethol bob wythnos. Trafodir cleifion mewnol a chleifion yr Hosbis Ddydd yn y tîm amlddisgyblaethol.

Rheolir a chyflwynir adroddiadau am ddigwyddiadau Llywodraethu Clinigol drwy Strwythurau Llywodraethu Clinigol yr Hosbis. Mae St Kentigern yn mynychu Cyfarfodydd Digwyddiadau o Bwys y Bwrdd Iechyd ac mae trefniadau ar waith i'r Hosbis ddefnyddio'r system NADEX.

Blaenoriaethau Gofal Integredig

Mae'r hosbis yn cymryd rhan ym mhrosiect Blaenoriaethau Gofal Integredig Cymru Gyfan ar gyfer diwrnodau olaf oes.

Profiad Cleifion

Rhowch sylwadau am brofiad cleifion a chael adborth ar brofiad cleifion, cyfathrebu â chleifion a gwybodaeth ar eu cyfer a mentrau cymorth cleifion eraill. Dylai timau roi sylwadau penodol ynglŷn â:

- *Pa drefniadau sydd ar waith i gefnogi rhyddhau/ derbyn cleifion yn gyflym ar ddiwedd oes?*
- *Beth yw canlyniadau'r adborth o'r arolwg profiad cleifion cenedlaethol (iwantgreatcare)?*

- I want great care (IWGC): Rhoddir arolwg IWGC i bob claf ei lenwi yn yr adran cleifion mewnol a'r adran Gofal Dydd. Mae'r rhai a ddychwelwyd yn nodi lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith y cleifion
- Rhoddir sylwadau o'r arolygon bodlonrwydd cleifion i'r tîm.
- Rhoddir taflenni gwybodaeth i bob claf.
- Mae'r cysylltiadau gyda'r Nyrsys Ardal a'r Timau Gofal Estynedig yn dda ac mae cymorth ar gael i gynorthwyo i ryddhau claf i farw gartref, os mai dyna yw ei ddymuniad.

Gwella Gofal, Cyflawni Canlyniadau

Mae'r Hosbis ar safle Ysbyty HM Stanley, sydd bellach wedi ei gau. Er bod yr amgylchedd yn yr Hosbis yn addas a'i fod yn darparu llety priodol ar gyfer cynorthwyo cleifion ag anghenion gofal Diwedd Oes, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalywyr, mae'r llwybr i'r Hosbis wedi dioddef oherwydd penderfyniad y Bwrdd lechyd i werthu'r safle i'w ddatblygu'n dai preswyl ac mae'r Hosbis yn ystyried ei lleoliad yn y dyfodol o ganlyniad. Mae sawl dewis i'w archwilio mewn partneriaeth â'r Bwrdd lechyd.

Sylwadau'r Comisiynwyr

Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r Bwrdd lechyd yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir ac mae tystiolaeth o waith ar y cyd sydd wedi ei sefydlu'n dda, a ddangosir gan gyfraniad Ymgynghorydd Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Meddygaeth Liniarol i'r gwasanaeth. Mae trefniadau wedi eu sefydlu i rannu pryderon rheoli risg trwy system adrodd y Bwrdd lechyd. Mae'r staff yn cymryd rhan yn is-grwpiau Gofal Lliniarol Arbenigol y Bwrdd lechyd.

Sylwadau Tîm Hosbis St Kentigern

Mae'r tîm o'r farn eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ar lefel leol gyda'r holl ddarparwyr.

Adolygiad Nodiadau Achos

Ni adolygwyd nodiadau achos.

Arfer Da

Nodwch unrhyw feysydd o arfer da

Arfer Da/Llwyddiannau pwysig:

- Hyblygrwydd derbyniadau ar y penwythnos gan fod Uwch-ymarferwyr Nyrsio yn gweithio.
- Rhaglen anadlol, (gweler y sylwadau blaenorol ar y Rhaglen Anadlol).
- Cwnselydd Profedigaeth gydag arbenigedd penodol mewn gweithio â phlant.
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r tîm Treialon Clinigol.
- Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl.

Meysydd i'w Hystyried

- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gytuno ar gefnogaeth briodol gan Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Lliniarol sy'n adlewyrchu anghenion yr Hosbis.
- Ystyried goruchwyliaeth glinigol i gefnogi'r unigolyn yn y swydd Uwch-ymarferydd Nyrsio.
- Sicrhau bod protocolau cyfredol wedi eu sefydlu ar gyfer yr Uwch-ymarferydd Nyrsio er mwyn gallu mynnu cynnal ymchwiliadau a'u dehongli.
- I gael Uwch Nyrs benodedig yn y Sefydliad i ddilyn hyfforddiant ar lefel ôl-raddedig mewn Gofal Lliniarol.
- I ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth mewn meysydd lle mae un deiliad swydd yn darparu gwasanaeth e.e. Gwasanaeth Profedigaeth Plant.
- Datblygu a chytuno ar bolisi cyfathrebu gyda phartneriaid.

Canfyddiadau Cyffredinol

Mae gan Hosbis St Kentigern bolisi gweithredol eglur a chryno. Cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir CANISC i gofnodi'r holl wybodaeth. Trafodir yr holl gleifion newydd yng nghyfarfod wythnosol y Tîm Amlddisgyblaethol a chytunir ar gynllun gofal. Adolygir cleifion mewnol yng nghyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol *bob wythnos*. Trafodir cleifion yr Hosbis Ddydd a chleifion mewnol yn y Tîm Amlddisgyblaethol.

Dywedodd y tîm fod cyfathrebu gyda darparwyr gwasanaethau gofal lliniarol lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dda. Mae grwpiau gydag arweinwyr penodedig wedi eu sefydlu ar gyfer Rheoli Risg, Rheoli Meddyginiaeth ac Archwilio. Mae arolygon cleifion yn nodi lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymhlith y cleifion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel comisiynwyr, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adrodd y ceir gwaith integredig da gyda hosbis St Kentigern a chyfranogiad yn y grŵp strategol lleol.

Mae Hosbis St Kentigern wedi penodi Prif Weithredwr yn ddiweddar sy'n darparu arweinyddiaeth gref i'r gwasanaeth.

Roedd tystiolaeth yn dangos y darperir Gofal o fewn fframwaith o Lywodraethu Clinigol. Mae'r Hosbis yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr lleol eraill a Chomisiynwyr y Bwrdd Iechyd. Mae meysydd o arfer da y gellid eu rhannu e.e. ei rhaglen anadlol ar gyfer cleifion. Mae'n rhaid canmol St Kentigern am ei gallu i oresgyn anawsterau ariannol difrifol gyda chymorth a chefnogaeth y gymuned a

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ar ôl dileu swydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn 2010 a cholli, yn 2012, yr ymgynghorydd arweiniol penodedig o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, colodd St Kentigern ran o'i chefnogaeth feddygol, a datblygodd wasanaeth 'dan Arweinyddiaeth Nyrs' i oruchwylio'r gwaith o reoli gofal clinigol y cleifion mewnol. Er bod manteision i'r model hwn, yn enwedig o ran derbyn cleifion y tu allan i oriau arferol, ceir diffyg cefnogaeth ffurfiol o ran gwerthuso a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch. Mae gan yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch fwy nag un swyddogaeth, sef y ddarpariaeth o ofal fel Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch ac arweinyddiaeth y swyddogaeth nyrsio o fewn y sefydliad. Trwy ddefnyddio cymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, bydd Hosbis St Kentigern yn gallu gwella cyfraniad Arweinyddiaeth Glinigol Feddygol i'r Hosbis ac adolygu ei strwythur rheoli nyrsio er mwyn diffinio'r model arweinyddiaeth nyrsio yn yr Hosbis a darparu cefnogaeth briodol i'r Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch yn y swydd feichus hon.

Pryderon ynglŷn â'r Safle: Mae'r Hosbis ar safle Ysbyty HM Stanley, sydd bellach wedi ei gau. Mae'r Hosbis yn ystyried ei lleoliad yn y dyfodol o ganlyniad. Mae sawl dewis i'w archwilio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd.

Pryderon

Cyfeiriwch at y canllawiau ar nodi pryderon. Mae'n rhaid tynnu sylw'r tîm craidd at unrhyw risgiau brys neu bryderon difrifol ar unwaith.

Diffyg gwerthuso ffurfiol a Goruchwyliaeth Glinigol wedi ei sefydlu i gefnogi'r Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch.

Angen diweddarau protocolau ar gyfer swyddogaeth yr Uwch-ymarferydd Nyrsio Uwch.

Pryderon Difrifol:

Dim

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi ar adeg yr ymweliad a rhaid i'r tîm adolygu llawn gytuno arni

Nodi Pryderon – Materion

Mater	Lefel y Pryder Risg Uniongyrchol , Pryder Difrifol, Pryder	Beth yw'r pryder penodol?
	Pryder	
	Pryder Difrifol	